

UNLIMITED...

Unlimited Expression of Interest information

Mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol.

Y Gwobrau

Mae Unlimited yn cynnig tri math o wobrau:

- **Prif Gomisiwn** – i greu a rhannu darn newydd o waith
- **Gwobr Ymchwil a Datblygu (R&D)** – i gymryd syniad a’i brofi
- **Gwobr i Egin-artistiaid** – i greu darn newydd o waith

Yn achos pob un o’r gwobrau, mae Unlimited yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb byr, ac yna gwahoddir **dim ond** yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer i gwblhau ffurflen gais fanwl.

Am beth alla i gyflwyno cais?

Gall artistiaid profiadol gyflwyno cais am y Gwobrau Prif Gomisiwn a Gwobrau Y&D. Gall egin-artistiaid gyflwyno cais am y Gwobrau i Egin-artistiaid.

Os ydych wedi’ch lleoli yng Nghymru neu yn Lloegr, gallwch ymgeisio am unrhyw elfen ac am unrhyw wobwr Partneriaeth.

Os ydych wedi’ch lleoli yn Yr Alban, gallwch ymgeisio am elfennau’r gwobrau Y&D a’r gwobrau i Egin-artistiaid.

	Profiadol Cymru/Lloegr	Profiadol Yr Alban	Egin Lloegr/Cymru/Yr Alban
Prif gomisiwn	Ie	Na	Na
Gwobr Y&D/R&D	Ie	Ie	Na
Gwobr egin-artistiaid	Na	Na	Ie

Am ragor o wybodaeth, yn cynnwys diffiniadau o ‘profiadol’ ac ‘egin’, edrychwch ar ein Cwestiynau a Ofynnir yn Aml (FAQs).

Delivered by



**ARTS
ADMIN.**

Funded by



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



ALBA | CHRUTHACHAIL



Gwobrau Partneriaeth

Mae gwobrau Partneriaeth ar gael ar draws pob elfen. Mae gwobrau Partneriaeth yn dod â chyllid ychwanegol – rhagor o arian ar gyfer artistiaid anabl – ac yn ein helpu i gyrraedd rhannau o'r sector diwylliannol sy'n newydd i ni, neu lle mae gwaith gan artistiaid anabl yn cael ei dangynrychioli.

Neilltuir tua hanner arian y gwobrau ar gyfer y gwobrau Partneriaeth, a'r gweddill ar gyfer ceisiadau heb gysylltiad â'r Gwobrau Partneriaeth.

Mae gan bob partner feini prawf ychwanegol. Mae hyn yn golygu eu bod yn aml yn chwilio am rywbeth penodol, am waith ar gyfer cynulleidfa benodol, neu waith gan artistiaid/cwmnïau sy'n cwrdd â meini prawf penodol.

- Ar gyfer y prif gomisiynau, mae gennym Wobrau Partneriaeth gydag Artsadmin, Farnham Maltings, Pentabus a'r Wellcome Collection.
- Ar gyfer y gwobrau Y&D, mae gennym Wobrau Partneriaeth gyda'r Bagri Foundation, Museum of the Home, Polka Theatre, Sage Gateshead a'r Southbank Centre.
- Ar gyfer y gwobrau i egin-artistiaid, mae gennym Wobrau Partneriaeth gyda Coventry 2021 a'r Art House.

Am ragor o wybodaeth, gweler y ddogfen Gwobrau Partneriaeth sy'n dangos eu holl feini prawf a'u lefelau ariannu.

Cyflwyno cais

Cyflwynir ceisiadau drwy borth ar-lein, a gellir dod o hyd i'r ddolen briodol ar wefan Unlimited: weareunlimited.org.uk/apply-to-unlimited

Ni fydd y wefan yn agor hyd **Ddydd Iau 01 Hydref 2020**, a'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno cais yw **Dydd Mawrth 27 Hydref 2020 am hanner dydd**. Er tegwch i bawb, ni fyddwn yn cynnig unrhyw estyniadau i'r dyddiad hwn. Rydym hefyd yn argymhell y dylech gyflwyno eich cais cyn gynted ag y byddwch yn barod ac yn abl i wneud hynny ar ôl 1 Hydref, yn hytrach nag aros tan y funud olaf. Byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais.

Gellir dod o hyd i bob cwestiwn a ofynnir yn y fersiwn dogfen Word all-lein o'r ffurflenni Datgan Diddordeb. Mae'r rhain ar gael o ddiwedd Gorffennaf ymlaen ar wefan Unlimited drwy'r ddolen uchod. Ar gyfartaledd, dylai gymryd rhwng un a dwy awr i gwblhau'r ffurflen yn llawn. Unwaith y bydd y porth wedi agor, gallwch wedyn bastio eich atebion i mewn, ynghyd â'r dolenni neu'r uwch-lwythiadau angenrheidiol. Os yw'r atebion wedi eu paratoi ac yn barod, dylai'r broses gymryd llai na 30 munud ar gyfartaledd.

Oes cymorth mynediad ar gael i helpu wrth gyflwyno cais?

Oes. Mae llawer o'r deunyddiau ar gael mewn print bras, fersiwn sain ac Easy Read

a hefyd mewn fersiynau Cymraeg. Mae rhagor ar gael mewn fformatau gwahanol ar alw. Os nad yw ein porth ymgeisio yn hygyrch i chi, gallwch ymgeisio mewn gwahanol ffyrdd.

Os hoffech ragor o help gyda mynediad, yn cynnwys deall y termau a ddefnyddir yn ein ffurflen gais, neu gael mynediad at arian i gael gweithwyr cefnogi i'ch helpu i wneud cais, gallwn ni fod o gymorth.

Os am ragor o wybodaeth am gymorth mynediad, mae croeso chi ebostio info@weareunlimited.org.uk neu ffonio **07506 679968**.

Ariannu

Mae Unlimited yn derbyn arian o Gyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Alban Greadigol. Mae'r cyllid gan bob un yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer artistiaid/cwmnïau yn y lleoliadau hyn. Rydyn ni hefyd yn derbyn arian o nifer o gwmnïau a sefydliadau, a phob un ohonyn nhw'n cefnogi un o'r Gwobrau Partneriaeth.

Faint o arian alla i wneud cais amdano? Mae hyn yn amrywio yn ôl pob elfen:

Mae'r **Prif Wobrau Comisiynau** yn amrywio rhwng **£20,000–£80,000**.

- Mae gan y Gwobrau Partneriaeth eu hystod eu hunain – gweler dogfen y Gwobrau Partneriaeth am wybodaeth. Mae'r rhain yr un fath ar gyfer pob ymgeisydd, ble bynnag maen nhw wedi eu lleoli
- Ar gyfer ceisiadau nad ydynt yn gysylltiedig â gwobr Partneriaeth, ac ar gyfer artistiaid sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, mae'r mwyafswm yn cael ei gapio ar **£50,000**
- Disgwylir i chi gael o leiaf 10% mewn arian cyfatebol o ffynonellau eraill (gall fod mewn arian parod neu ar ffurf cymorth ymarferol)

Mae'r **Gwobrau Y&D** yn amrywio rhwng **£5,000–£10,000**

- Disgwylir i chi gael o leiaf 10% mewn arian cyfatebol o ffynonellau eraill (gall fod mewn arian parod neu ar ffurf cymorth ymarferol)

Mae'r **Gwobrau Egin-artistiaid** yn amrywio rhwng **£2,500-£10,000**.

- Nid oes angen arian cyfatebol.

Yn y cam Datgan Diddordeb (EOI) nid oes raid i chi gyflwyno cyllideb na sôn wrthym am arian cyfatebol. Yn syml, gofynnir yn unig i chi roi syniad o gost eich prosiect. Os byddwch ar y rhestr fer, gall y swm yma newid wrth i chi gostu'ch prosiect yn llawn.

Meini Prawf

Mae'r Meini Prawf Allweddol ar gyfer yr holl wobrau yn nodi bod angen iddynt:

- fod dan arweiniad anabledd.
- yn dangos ansawdd uchel, arloesedd ac uchelgais.

Yn achos y **Prif Gomisiynau** yn unig, mae angen i chi:

- fod â hanes profedig cryf o greu gwaith a chyrraedd cynulleidfaoedd.
- allu dangos tystiolaeth o gydweithrediadau cryf, partneriaethau neu berthynas artist/cynhyrchydd (gallant gynnwys rhai gyda chwmnïau/artistiaid/cynhyrchwyr nad ydynt dan arweiniad anabledd).
- ddangos hyblygrwydd a'r gallu i addasu i sicrhau bod gweithiau'n ymgysylltu ag ystod o leoliadau o ran maint/graddfa.
- gael artist neu gwmni arweiniol sy'n byw yng Nghymru neu Lloegr.

Ar gyfer y **Gwobrau Y&D** yn unig, mae angen i chi:

- fod â hanes profedig cryf o greu gwaith a chyrraedd cynulleidfaoedd
- fod â diddordeb mewn cynllunio a datblygu cydweithrediadau a phartneriaethau
- gael artist neu gwmni arweiniol sy'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.

Ar gyfer y **Gwobrau Egin-artistiaid** yn unig, mae angen i chi:

- fod â diddordeb mewn cynllunio a datblygu cydweithrediadau a phartneriaethau
- gael artist neu gwmni arweiniol sy'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.

Disgwyliwn na fydd gwaith ar y prosiectau rydyn ni'n eu hariannu yn dechrau cyn mis Mai 2021 a rhaid eu cwblhau erbyn y dyddiadau hyn:

- **Prif gomisiynau** – Hydref 2022
- **Y&D** – Gwanwyn 2021
- **Egin-artistiaid** – Gwanwyn 2021

Byddwn yn ystyried cefnogi ystod o waith – mewn perthynas â chelfyddyd, graddfa, cyfle cyfartal a lleoliad daearyddol – ar draws yr holl gomisiynau.